# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Mai 2019

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Martha Howells**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Minnau hefyd! - Ymchwiliad i rôl y celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol: y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

(09.30-11.00) (Tudalennau 1 - 41)

Dafydd Elis-Thomas, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth - Llywodraeth Cymru

Lesley-Anne Kerr, Pennaeth Datblygu Amgueddfeydd - Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

**3.1 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ynghylch Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**

(Tudalennau 42 - 44)

**3.2 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**

(Tudalennau 45 - 47)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.00)

## 5 Ôl-drafodaeth breifat a chyfle i drafod materion o bwys

(11.00–11.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

Dydd Mercher 22 Mai 2019, 09.30

**Rôl y Celfyddydau a Diwylliant wrth Fynd i'r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol**

1. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y ffordd y gall cyrff a ariennir yn gyhoeddus ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ac allgáu cymdeithasol. Wrth gyfeirio at gyrff a ariennir yn gyhoeddus, rydym yn cynnwys awdurdodau lleol, safleoedd treftadaeth, theatrau, ysgolion, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd.

2. Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol wrth ofyn am dystiolaeth:
   a. Pa mor effeithiol fu Llywodraeth Cymru wrth wella lefelau cyfranogi mewn diwylliant a'r gallu i fanteisio ar ddiwylliant ymhlith pobl mewn tlodi?
   b. Pa mor effeithiol fu ymdrechion cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru (sef Cyngor y Celfyddydau, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a llywodraeth leol wrth ddefnyddio diwylliant i drechu tlodi?
   c. Beth fu effaith rhaglen Cyfuno Llywodraeth Cymru ar y defnydd a wneir o ddiwylliant i drechu tlodi?
   d. Pa mor effeithiol fu rhaglenni arloesi Cyfuno wrth ysgogi cydweithio lleol?

3. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar-lein rhwng dydd Gwener 5 Hydref 2018 a dydd Gwener 14 Rhagfyr 2018, a choladwyd 19 o ymatebion gwahanol. Ymwelodd y pwyllgor â rhaglenni Cyfuno lleol ddydd Mercher 30 Ionawr 2019. Casglodd y pwyllgor dystiolaeth gan bartïon â diddordeb ddydd Mercher 6 Mawrth 2019, dydd Iau 14 Mawrth 2019, dydd Iau 20 Mawrth 2019, dydd Mercher 3 Ebrill, dydd Iau 2 Mai 2019 a dydd Mercher 8 Mai 2019.

**Cefndir: Adroddiad Andrews**

4. Yn 2013, Comisiynodd Llywodraeth Cymru y Farwnes Kay Andrews OBE i argymell ffyrdd y gallai cyrff diwylliannol a threftadaeth gydweithio'n agosach er mwyn sicrhau bod mwy o bobl yn gallu manteisio ar ddiwylliant, yn ei werthfawrogi ac yn cymryd rhan ynddo, mewn ffyrdd sy'n helpu i leihau tlodi.

5. Lansiwyd ei hadroddiad, *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio’r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru*, ym mis Mawrth 2014, gan ategu adroddiad yr Athro Dai Smith, '*Y Celfyddydau mewn Addysg yn ysgolion Cymru,*' a gyhoeddwyd yn 2013.

6. Roedd yn dangos y rhan hollbwysig y gall amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, henebion a sefydliadau celfyddydol ei chwarae wrth ysbrydoli pobl, eu hannog i ddysgu a meithrin sgiliau newydd, a'u helpu i fagu hyder ac ymdeimlad o hunaniaeth. Nododd yr adroddiad achos cymhellol dros gydweithio'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau bod y rhai hynny sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfranogiad diwylliannol. Nododd yr adroddiad 33 o argymhellion, o dan dair thema gyffredinol:

a. Y Gymuned: dulliau ymgysylltu sefydliadau diwylliannol, cysylltiadau â’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a’r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, defnydd a rennir a chyd-fentrau.
b. Addysg a Sgiliau: cynnwys cyfleoedd celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth mewn rhaglenni a gweithgareddau addysgol sy'n bodoli eisoes, datblygu deunyddiau sy'n helpu i fanteisio ar gyfleoedd celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth er mwyn gwella dysgu, a datblygu rhaglenni newydd.
c. Fframwaith a Seilwaith Strategol: sicrhau bod polisïau a seilweithiau'n cefnogi prosesau cyflawni, datblygu rhwydweithiau dysgu a thrafnidiaeth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: *Cyfuno***

7. Mae sicrhau cyfle cyfartal wrth wraidd polisi cymunedol Llywodraeth Cymru. Mae'r menter bolisi fawr, sef *Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant,* yn mynd ar drywydd y rôl benodol y gall cyfleoedd diwylliannol a threftadaeth ei chwarae wrth drawsnewid cyfleoedd bywyd unigolion mewn cymunedau difreintiedig.

8. Ni ellir cynyddu'r cydweithio rhwng sefydliadau dros nos; mae angen cydymdrech i dreialu dulliau gweithredu newydd a dysgu gwersi cyn y gellir ei ymestyn. Cytunodd y Gweinidogion i dreialu dull o weithio yn ystod cyfnod 'peilot' o ddwy flynedd.

9. Yn ystod y cyfnod peilot cychwynnol hwn, a gynhaliwyd am flwyddyn o fis Ebrill 2015, sefydlwyd chwe Ardal Arloesi ledled Cymru. Cafodd hyn ei ymestyn i gynnwys deng ardal yn ystod yr ail flwyddyn. O fewn pob ardal, aeth cyrff diwylliannol a threftadaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ati i weithio gyda chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf a grwpiau cymunedol i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ar lefel y gymuned leol. Canolbwyntiwyd yn benodol ar unigolion a chymunedau na fyddent fel arfer yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, ac ar eu helpu i fanteisio ar gyfleoedd diwylliannol a threftadaeth *parhaus*.

10. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar ôl i'r cyfnod peilot ddod i ben, ac ar ddiwedd 2017, wedi dangos bod y cyfranogwyr, ar y cyfan, yn teimlo'n gadarnhaol iawn am y rhaglen Cyfuno. Ar sail canfyddiadau rhanddeiliaid Cyfuno, roedd y prif fanteision yn cynnwys:

a. Meithrin cysylltiadau llawer cryfach rhwng rhanddeiliaid o sectorau gwahanol
b. Proffil uwch i randdeiliaid Cyfuno, a mwy o ymwybyddiaeth o'r rôl y gall diwylliant ei chwarae o fewn awdurdodau lleol a rhanddeiliaid gwrth-dlodi mewn partneriaethau
c. Mwy o ymgysylltu â grwpiau 'mwy anodd eu cyrraedd' mewn cymunedau difreintiedig

11. Mae'r dull gweithredu hwn yn cael ei ddatblygu a'i ymestyn yn ystod 2017-20 drwy gyllid a chymorth gan wyth rhwydwaith Cyfuno ledled Cymru.

12. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol er mwyn cydgysylltu'r gwaith o wireddu'r weledigaeth a nodir yn adroddiad Andrews. Mae hyn yn cynnwys cyrff diwylliannol allweddol, yn ogystal â chynrychiolwyr awdurdodau lleol ac adrannau sy'n arwain ar bolisi'r amgylchedd hanesyddol, y polisi cymunedol a'r polisi addysg yn Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol wedi bod yn gam hanfodol o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, mabwysiadu dull

gweithredu strategol a rhannu'r dysgu.

13. Ynghyd â sefydlu a rheoli'r rhaglen Cyfuno, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r gwaith o gynnal gweithgareddau Cyfuno, gan gynnwys Cadw, sydd wedi cynnig amrywiaeth o weithgareddau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â Cyfuno ar draws ei safleoedd a thrwy ei rhaglenni gwirfoddoli. Er enghraifft, mae'r amrywiaeth eang o brosiectau yn cynnwys cymorth gan raglen nodedig i deuluoedd yng Ngwynedd a rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol CLILC; y prosiect Beirdd Preswyl, mewn partneriaeth â Llenyddiaeth Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Theatr Genedlaethol Cymru, sy'n ennyn diddordeb pobl ifanc mewn barddoniaeth ar safleoedd, yn meithrin eu sgiliau, eu hyder a'u gwerthfawrogiad o safleoedd. Mae Cadw hefyd yn un o bartneriaid allweddol *Uchelgais Diwylliannol*, sef menter sydd â'r nod o greu 33 o leoliadau hyfforddi y flwyddyn, dros gyfnod o dair blynedd. Darperir yr hyfforddiant i bobl ifanc 18-24 oed nad ydynt yn raddedigion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

14. O dan y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol ceir Grŵp Gweithredol sy'n rheoli'r rhaglen Cyfuno. Y grŵp hwn sy'n gyfrifol am ddatblygu Cynllun Cyflawni cynhwysfawr (Atodiad A) a chynllun gweithredu a chynllun cyfathrebu cysylltiedig, ynghyd â chytuno arnynt a'u monitro. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau cysylltiadau effeithiol rhwng y sector diwylliannol ac amrywiaeth eang o raglenni a sefydliadau cysylltiedig.

15. Mae'r rhaglen Cyfuno yn cynnig mwy o gyfleoedd i unigolion mewn cymunedau difreintiedig gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth. Drwyddi, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, cestyll, theatrau, cymdeithasau tai, ysgolion ac asiantaethau gwirfoddoli.

16. Menter cost isel yw Cyfuno, sydd â chyllideb flynyddol o £280,000 ar gyfer y rhaglen gyfan, a ddyrennir yn gyfan gwbl o'r gyllideb Diwylliant. Mae cymorth y sector diwylliannol yn hollbwysig er mwyn sicrhau llwyddiant Cyfuno, gyda phob un o'r Cyrff arweiniol a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn cyfrannu at y rhaglen. Mae'r llythyrau cylch gwaith a anfonir i'r cyrff hyn yn nodi'r gofyniad i weithio gan gefnogi'r rhaglen Cyfuno. Gweler isod grynodebau o'u cyfraniad.

**Amgueddfa Cymru**

17. Mae Amgueddfa Cymru wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r rhaglen Cyfuno, ac mae'n parhau i wneud hynny. Dros y tair blynedd diwethaf, mae hefyd wedi arwain y gwaith o werthuso'r rhaglen, mewn partneriaeth â thîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Mae Amgueddfa Cymru yn gyfrifol am gyflawni amrywiaeth o fentrau Cyfuno. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

   a. Pwy sy'n Penderfynu? Gweithiodd Amgueddfa Cymru gyda grŵp o elusen The Wallich, sy'n cefnogi oedolion digartref, er mwyn curadu darnau o gelf gyfoes o gasgliadau'r Amgueddfa.

   b. GRAFT: Maes Llafur y Pridd. O dan y rhaglen hon, sy'n gysylltiedig ag artistiaid ac elusennau lleol, rhoddwyd cyfleoedd i unigolion ddylunio, creu a chynnal a chadw gardd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe. Bu'r rhaglen yn fodd i

newid canfyddiadau, a llwyddodd yr unigolion dan sylw i feithrin gwybodaeth ac ennill nifer o gymwysterau.

c. Uchelgais Diwylliannol: Mae Amgueddfa Cymru hefyd yn un o bartneriaid allweddol y fenter a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

d. Gwirfoddoli: Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn gweithio gyda chynllun Sgiliau ar gyfer y Dyfodol Oxfam er mwyn cefnogi menywod sy'n agored i niwed drwy gynnig llwybrau i gyflogaeth i fenywod sy'n ffoaduriaid. Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion arbennig lleol er mwyn cynnig lleoliadau i bobl ifanc ag awtistiaeth.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

18. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bartner gweithredol yn y rhaglen Cyfuno. Mae'n dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r rhaglen, ac yn hyrwyddo ei hethos drwy nifer o fentrau i annog pobl o gymunedau difreintiedig i gymryd rhan yn y celfyddydau. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

a. Portffolio Celfyddydau Cymru, lle ceir pwyslais penodol ar weithio gyda phobl mewn cymunedau difreintiedig ar draws 67 o sefydliadau a ariennir gan refeniw.

b. Cymuned Celf ar y Blaen neu Noson Allan: mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu cyllid i alluogi unigolion neu sefydliadau celfyddydol i estyn allan i gymunedau penodol drwy ei ddigwyddiadau celfyddydau cymunedol 'Celf ar y Blaen' a 'Noson Allan'. Yn 2017-18, cefnogodd Noson Allan 319 o hyrwyddwyr a gynhaliodd 511 o berfformiadau mewn cymunedau lleol ledled Cymru. Ariennir Noson Allan gan y rhaglen Cyfuno.

c. Syniadau, Pobl, Lleoedd: nod y rhaglen hon yw ymgorffori'r celfyddydau drwy gynnwys pobl leol mewn rhaglenni adfywio dychmygol, uchelgeisiol ac arloesol.

d. Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau o'r un anian, drwy ei gysylltiad â Cyfuno a cARTrefu Cymru, rhaglen bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, Age Cymru a Sefydliad Baring.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

19. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn aelod o'r Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol, ac mae wedi cadeirio'r grŵp. Mae'r Llyfrgell yn cefnogi'r rhaglen Cyfuno ac yn ymrwymedig i'w chefnogi. Mae wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen.

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

20. Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn gwneud cyfraniad llai uniongyrchol i'r rhaglen Cyfuno, ond caiff ei gynrychioli ar y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol ac mae wedi dylanwadu ar gyfeiriad y rhaglen ers iddi gael ei sefydlu. Mae'r Comisiwn, mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru, yn rheoli Casgliad

y Werin Cymru, sy'n hwyluso'r broses o lanlwytho lluniau, recordiadau a straeon wedi'u dogfennu am Gymru a'i phobl; caiff llawer o'r deunydd a gyrchir ar gyfer y casgliad ei gasglu drwy'r rhaglen Cyfuno.

**Cyllid, adnoddau a staff**

21. Rôl cydgysylltwyr lleol Cyfuno yw sicrhau rhaglenni a phartneriaethau mwy effeithiol a chysylltu sefydliadau â'i gilydd. Mae'r partneriaethau'n cynnal gweithgareddau a rhaglenni sy'n bodloni dangosyddion perfformiad Cyfuno (Atodiad B) ac yn adrodd arnynt.

22. Mae adolygiad o rôl cydgysylltwyr Cyfuno yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd gan sefydliadau partner yn dangos bod yr holl sefydliadau sy'n ymwneud â Cyfuno o'r farn bod cydgysylltwyr yn hollbwysig i lwyddiant y rhaglen. Heb waith y cydgysylltwyr ar lawr gwlad, mae'n annhebygol y byddai'r rhaglen wedi bod mor llwyddiannus. Roedd y cynllun peilot gwreiddiol yn gorgyffwrdd yn sylweddol ag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac mae'n parhau i ddatblygu ac adeiladu ar nifer o'r cysylltiadau hynny, ar sail gwybodaeth leol. Un o gryfderau'r rhaglen Cyfuno yw ei gallu i ddefnyddio grwpiau a phartneriaethau sy'n bodoli eisoes i gyflawni gwaith sy'n gysylltiedig â'r rhaglen.

23. Er mai'r arwyddion cynnar yw bod rôl y cydgysylltwyr wedi bod yn hollbwysig, caiff y broses o sicrhau adnoddau ar lefel leol ei dirprwyo i'r cyrff arweiniol. Mae pob corff arweiniol wedi cefnogi'r rhaglen mewn ffyrdd gwahanol, yn amrywio o gyflawni rôl cydgysylltydd rhan-amser i fod yn rhan o dîm penodedig.

24. Mae ariannu'r Celfyddydau a Diwylliant yn broblem barhaus o fewn cyrff cyhoeddus, gydag awdurdodau lleol yn rhoi blaenoriaeth is iddynt.

**Mynediad i drafnidiaeth**

25. Drwy gydol y rhaglen, mae partneriaid wedi tynnu sylw'n gyson at gost uchel a/neu ddarpariaeth annigonol trafnidiaeth. Mae trafnidiaeth yn dal i fod yn rhwystr i gymryd rhan mewn nifer o gymunedau. Dengys tystiolaeth fod diffyg trafnidiaeth addas wedi cael ei nodi'n ffactor sy'n atal llawer o bobl rhag mynd i safleoedd diwylliannol, neu'n ei gwneud yn fwy anodd iddynt wneud hynny. Canfu *Arolwg Cenedlaethol Cymru (2014-15)* fod tua 4% o'r boblogaeth gyffredinol wedi nodi diffyg trafnidiaeth, neu anhawster cyrraedd cyrchfan, fel eu prif reswm dros beidio ag ymweld â lleoliad neu ddigwyddiad diwylliannol yng Nghymru. Fodd bynnag, cynyddodd y ffigur hwn i 7% ar gyfer preswylwyr ardaloedd Cymunedau yn gyntaf (bryd hynny). [1] Mae hyn yn dangos bod y gallu i gael gafael ar drafnidiaeth fforddiadwy yn rhwystr mwy sylweddol i bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig nac i'r boblogaeth gyfan.

26. Mewn ymateb i adroddiad Andrews, comisiynodd y Panel Cynghori Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus ar y pryd adroddiad ar y cysylltiad rhwng diwylliant a thrafnidiaeth, a oedd yn cynnwys astudiaethau achos o gynlluniau a oedd yn ceisio chwalu'r rhwystrau a oedd yn gysylltiedig â thrafnidiaeth. Roedd yr adroddiad hwn yn

[1] Arolwg Cenedlaethol Cymru (2014-15): http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?tab=current&lang=cy

sail i *Diwylliant a chludiant: Chwalu'r rhwystrau i fynediad* (https://gweddill.gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tackling-poverty-through-culture/breaking-down-barriers-to-access/?lang=cy)

27. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi canllawiau ar chwalu'r rhwystrau hyn, ac wedi gweithio gyda phartneriaid a chydweithwyr yn y sectorau diwylliant a thrafnidiaeth i lunio'r canllawiau hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i helpu sefydliadau diwylliannol i gynyddu mynediad drwy roi mesurau ymarferol, realistig a niwtral o ran costau neu gost isel ar waith er mwyn gwella cysylltiadau trafnidiaeth. Mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth am opsiynau o ran trafnidiaeth, enghreifftiau o arfer gorau, a ffynonellau adnoddau a chymorth ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru yn benodol am gefnogi pobl sy'n wynebu rhwystrau economaidd, cymdeithasol, ffisegol a rhwystrau eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

**Cyllid hirdymor**

28. Mae Cyrff Arweiniol a ariennir drwy Grantiau Her Cyfuno wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw cyllid byrdymor yn eu galluogi i gynllunio ar gyfer yr hirdymor nac ychwaith i gadw aelodau medrus a gwybodus o staff a all feithrin cydberthnasau effeithiol a pharhaus â chymunedau, yn ogystal ag oddi mewn iddynt.

29. Mae yna bryder y gellid colli'r ffocws ar y rhaglen Cyfuno pe byddai'r broses gyllido'n cael ei datganoli i randdeiliaid lleol, yn enwedig o gofio'r pwysau ariannol a wynebir gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisio darbwyllo awdurdodau lleol a'r sector diwylliannol i gefnogi'r rhan hon o'u gwaith craidd. Mae swyddogion wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried cynlluniau i ariannu Cyfuno yn y tymor hwy.

**Gwerthuso**

30. Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd a thîm y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru er mwyn adolygu'r rhaglen Cyfuno a datblygu sail dystiolaeth ehangach ynghylch manteision cyfranogiad diwylliannol. Disgwylir i'r adolygiad nesaf, a fydd yn archwilio rôl cydgysylltwyr Cyfuno, gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2019. Mae gwerthusiadau blaenorol wedi tynnu sylw at y manteision allweddol, er enghraifft y cyfleoedd a grëwyd gan bartneriaethau i feithrin cydberthnasau rhwng rhanddeiliaid ac i godi proffil sefydliadau diwylliannol.

31. Ceir tystiolaeth ddangosol bod y rhaglen Cyfuno wedi annog sefydliadau na fyddent wedi ystyried manteisio ar gyfleoedd diwylliannol a threftadaeth yn flaenorol i wneud hynny nawr, fel adnoddau i helpu eu cleientiaid. Mae hyn wedi cael effaith fanteisiol ar y cyfranogwyr drwy eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd dysgu, hyfforddi a gwirfoddoli, yn ogystal â gwella eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl.

32. Dengys y gwerthusiad fod annog cydweithio lleol yn un o brif fanteision Cyfuno. Cyn i'r rhaglen gael ei chyflwyno, roedd diffyg dealltwriaeth ymhlith nifer o sefydliadau trydydd sector a llywodraeth leol o fanteision diwylliant a threftadaeth wrth drechu tlodi

ac achosion tlodi yng Nghymru, gan gynnwys sefydliadau sy'n cefnogi'r bobl ganlynol:

a. pobl sy'n byw mewn cymunedau heb leoliadau diwylliannol a threftadaeth
b. pobl sydd mewn perygl o gael eu hallgáu o'r system addysg
c. pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
d. pobl sy'n gwirfoddoli
e. pobl sydd am gael swydd
f. pobl â salwch corfforol neu salwch meddwl

33. Mae'r rhaglen Cyfuno yn parhau i gynnig cyfleoedd i chwalu'r rhwystrau yn y sectorau diwylliant a threftadaeth. Er ei bod yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol, bydd angen cymorth ac adnoddau ychwanegol arni er mwyn cynnal ac ehangu ei heffaith yn y dyfodol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfuno

## Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant

Cyflawni yn 2018-19

**#CyfunoFusion**



**http://llyw.cymru/cyfuno**

# Cynnwys


**3** Cyflwyniad

**4** Cyd-destun

Cynnydd hyd yma

**5** Beth rydym yn ei wneud yn 2017-2019

**7** Atodiad 1: Rhaglenni Grantiau Her Cyfuno yn 2017-19

**11** Atodiad 2: Y saith Dangosydd Cyfuno


Mae enwau a manylion personol yn yr astudiaethau achos a gynhwysir wedi'u newid er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion.



OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35430 ISBN digidol 978-1-78937-632-6

# Cyflwyniad

Mae'r cyfraniad pwerus mae diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau yn ei wneud at weddnewid cyfleoedd bywyd unigolion yn cael ei atgyfnerthu gan y rhaglen **Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant**.

Mae Cyfuno yn ymyriad arloesol, cost isel sy'n cydlynu ac yn canolbwyntio adnoddau, gwasanaethau a rhaglenni o bob math o sectorau a sefydliadau, gan eu galluogi i gynnig cefnogaeth uniongyrchol i bobl o bob cwr o Gymru.

Mae'n canolbwyntio ar helpu'r cymunedau hynny sy'n wynebu anawsterau economaidd. Mae'r cymunedau yma'n draddodiadol yn wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at ddiwylliant a threftadaeth, a'r manteision y gallant eu cyflwyno.

Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain Cyfuno ers 2015, mewn partneriaeth â'r sector diwylliannol a threftadaeth. Yn dilyn cyfnod peilot llwyddiannus, aethom ati i lansio'r rhaglen Grantiau Her Cyfuno 2 flynedd yn 2017 i sefydlu'r rhaglen yn iawn.

Mae wyth partneriaeth yn darparu rhaglenni strategol, gan ddefnyddio diwylliant i gefnogi cyflogadwyedd, grymuso, dysgu fel teulu a'r blynyddoedd cynnar, ac iechyd a lles – ar gyfer y rhai â'r angen mwyaf.

Yn ogystal, rydym yn datblygu sawl menter, gan gynnwys gwirfoddoli, lleoliadau hyfforddiant ac ymgysylltu ag ieuenctid, i gefnogi amcanion ehangach rhaglen Cyfuno.

## Conwy – Stori David

Mae David yn dyn ifanc yn ei ddauddegau sydd wedi bod yn gweithredu fel y prif ofalwr ar gyfer perthynas ac, o ganlyniad, roedd yn ddi-waith. Cysylltodd â 'Cymorth i Ofalwyr' Conwy i gael cyngor a chafodd ei gyfeirio at y cynghorydd 'Gwaith Amdani' yng Nghyngor Conwy, sy'n gweithio'n agos gyda Swyddog Cyfuno Conwy.

Roedd David yn chwilio am gyfleoedd a oedd yn gysylltiedig â'i ddiddordeb brwd mewn hanes, ac roedd yn awyddus i ddatblygu ei CV i wella ei ragolygon cyflogaeth a'i hyder. Dechreuodd wirfoddoli yn Archifau Conwy bob wythnos ac, ar ôl chwe mis, daeth swydd ar gael fel aelod staff llanw. Bodlonodd y meini prawf ac, erbyn hyn, mae'n aelod o gronfa fach o staff llanw ac yn gweithio 6 ½ awr y mis ar hyn o bryd.

Nid oedd David yn disgwyl y canlyniad hwn pan gofrestrodd i wirfoddoli, ond mae'n dweud nawr ei fod yn teimlo'n fwy hyderus i gymryd rheolaeth dros ei fywyd gwaith a gallu parhau i gyflawni ei ymrwymiad tymor hir fel gofalwr. Mae'r swyddog Cyfuno wedi ei gofrestru ar gyfer yr Achrediad Gwirfoddoli GwirVol, ac mae wedi gwirfoddoli dros 100 o oriau hyd yma. Mae wedi bachu ar gyfleoedd newydd, gan gynnwys gwirfoddoli mewn digwyddiad Cyfuno ym mharc Pentre Mawr, gan helpu i ddarparu gweithgarwch i blant ar thema'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n awyddus i ddilyn hyfforddiant a chymwysterau pellach yn 2018 fel rhan o raglen Cyfuno Conwy.

## Cyd-destun

- Mae'r rhaglen Cyfuno yn ymgorffori **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**[1] gyda pherthnasedd arbennig i gefnogi *Cymru Ffyniannus*, *Cymru o Gymunedau Cydlynus* a *Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu*.
- Mae rhaglen Cyfuno yn galluogi'r sector diwylliannol i gyfrannu at sawl amcan yn **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021**[2] a **Ffyniant i Bawb**[3], gan gynnwys gwirfoddoli, cyflogadwyedd, cefnogi pobl ifanc a hybu sgiliau digidol.
- Mae **Golau yn y Gwyll**[4] yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant yng Nghymru. Mae'n nodi sut gall diwylliant, trwy Cyfuno, rymuso pobl a datblygu hyder, sgiliau a chyflogadwyedd.

## Cynnydd hyd yma

Dan arweiniad MALD, mae camau cydgysylltiedig wedi'u cymryd i ddatblygu a sefydlu Cyfuno. Mae Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol (CIB) strategol yn goruchwylio'r rhaglen ac yn ceisio sbarduno newid ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau diwylliannol a chymunedol ledled Cymru.

Ers 2015, mae MALD wedi cefnogi partneriaethau Cyfuno, sef clymbleidiau o gyrff diwylliannol a chymunedol sy'n darparu gweithgarwch cymunedol sy'n helpu i drechu tlodi. Mae ein gwerthusiad yn dangos mai partneriaethau strwythuredig lleol o fewn rhaglen genedlaethol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cydweithio go iawn a gwell canlyniadau.

Rhwng 2015 a 2017, fe wnaeth dros 5,000 o bobl gymryd rhan yng ngweithgareddau Cyfuno, a oedd yn cynnwys mwy na 150 o bartneriaid. Buom yn gweithio gydag awdurdodau lleol, safleoedd treftadaeth, theatrau, ysgolion, amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd ymysg eraill i helpu dros 100 o bobl i ennill cymhwyster, fe wnaethom ni greu dros 300 o gyfleoedd gwirfoddoli a helpu mwy na 1,500 o ddisgyblion i wneud yn well yn yr ysgol.

1 www.gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy
2 www.gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf
3 www.gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf
4 www.gov.wales/docs/drah/publications/161213-a-vision-for-culture-in-wales-cy.pdf

# Beth rydym yn ei wneud yn 2017-2019

Yn dilyn y cyfnod peilot llwyddiannus, yn 2017 lansiodd MALD y rhaglen Grantiau Her Cyfuno. Mae wyth Corff Arweiniol yn darparu rhaglenni strategol 2 flynedd gan ddefnyddio diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau i gefnogi cyflogadwyedd, grymuso, y blynyddoedd cynnar ac iechyd a lles – ar gyfer y rhai sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.

Mae pob un yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid diwylliannol, ynghyd â sefydliadau eraill gan gynnwys cyrff gwirfoddoli, cymdeithasau tai, gwasanaethau iechyd, ysgolion, asiantaethau cymunedol, rhaglenni cyflogadwyedd gan gynnwys Cymunedau am Waith a'r rhaglen Dechrau'n Deg ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Mae pob un o'r cyrff arweiniol wedi penodi cydlynydd Cyfuno lleol fel y gellir creu rhaglenni a phartneriaethau mwy effeithiol ac er mwyn cysylltu sefydliadau â'i gilydd yn well.

Mae partneriaethau yn cyflawni ac yn adrodd ar weithgareddau a phrosiectau sy'n bodloni saith dangosydd perfformiad Cyfuno (Atodiad 2). Roedd y lefelau cyfranogiad ym Mlwyddyn 1 yn galonogol iawn. Adroddodd y cyrff arweiniol y canlyniadau canlynol:

| Dangosydd Cyfuno | Cyfranogwyr |
|---|---|
| C1 Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu fel Teulu | 4979 |
| C2 Ennill cymhwyster | 423 |
| C3 Gwirfoddoli'n rheolaidd fel llwybr i waith | 332 |
| C4 Cwblhau profiad gwaith | 110 |
| C5 Sgiliau digidol gwell | 50 |
| C6 Agwedd well tuag at ddysgu'n ffurfiol | 2689 |
| C7 Y gallu i reoli eu lles meddyliol ac iechyd corfforol yn well | 2941 |

## Casnewydd – Stori Sarah

Mae Sarah yn ddisgybl ysgol sy'n cael ei disgrifio gan ei hathro fel rhywun ag ymddygiad heriol, problemau hyder a lefelau llythrennedd isel. Mae ei hysgol gynradd wedi'i lleoli mewn ardal o amddifadedd uchel yng Nghasnewydd, gyda chanran uchel o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim.

Bu cydlynydd Cyfuno Casnewydd yn gweithio gyda'r ysgol ac Operasonic, cwmni o'r De sy'n galluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn opera, fel rhan o'r Global Science Opera. Cynhaliwyd sesiwn ragarweiniol yn ystod y diwrnod ysgol arferol. Roedd Sarah yn ymddangos nad oedd ganddi unrhyw ddiddordeb, ond cafodd ei hannog gan yr athro i fynychu sesiynau ar ôl ysgol. Gwnaeth yr athro a'r hwylusydd sylwadau ar y newid araf ond clir yn ei lefelau cyfranogi. Dechreuodd Sarah ofyn cwestiynau, roedd hi'n mwynhau'r perfformiad opera wedi'i ffrydio'n fyw a hyd yn oed yn cynnal ymchwil annibynnol gartref. Cymerodd Sarah ran weithredol mewn prosiect anorfodol ar ôl ysgol a arweiniodd at berfformiad.

Mae lefelau hyder Sarah wedi cynyddu, roedd hi'n fwy ymatebol yn y gwersi gydol y prosiect ac fe aeth ati i gynnal ymchwil yn annibynnol gartref heb i unrhyw un ofyn iddi wneud hynny. Doedd hyn erioed wedi digwydd o'r blaen. Yn ddiweddar, fe aeth Sarah i Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd fel rhan o weithdy ysgol; Sarah oedd un o'r bobl gyntaf i wirfoddoli i ddarllen ei gwaith.

Bydd MALD yn parhau i gefnogi'r partneriaethau mewn sawl ffordd, gan ymateb i angen. Bydd y cymorth hwnnw'n cynnwys:

- Sesiynau hyfforddi a rhwydweithio rheolaidd, adnoddau, cylchlythyrau a chyngor.
- Cymorth i ysgogi cyllid allanol.
- Rhaglenni hyfforddi mewn meysydd megis Arts Award.
- Cyngor a hyfforddiant ar werthuso effeithiol.
- Datblygu arddangosfa o'r rhaglen Cyfuno ar Gasgliad y Werin Cymru.
- Hyrwyddo ac eirioli'r rhaglen Cyfuno yng Nghymru a thu hwnt.

Yn ogystal â'r rhaglen Grantiau Her, byddwn yn parhau i ymrwymo i flaenoriaethau allweddol sy'n gofyn am weithredu ar lefel genedlaethol.

Byddwn yn:

- Cyflwyno rhaglen o 33 o leoliadau hyfforddi 12 mis o safon uchel sy'n targedu cymunedau ac unigolion sy'n wynebu anfantais, gan weithio gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri a Sgiliau Creadigol a Diwylliannol.
- Datblygu rhaglenni ymgysylltu diwylliannol pwerus ar gyfer pobl ifanc er mwyn gwella grymuso a sgiliau, gan weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Kids in Museums a'r cynllun Hyrwyddwyr Ifanc.
- Helpu i sicrhau newid sylweddol ym maes gwirfoddoli diwylliannol i gynyddu cyfleoedd ac ehangu mynediad at raglenni gwirfoddoli, mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).
- Gweithio gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y sector diwylliannol yn cyfrannu mwy at gefnogi ein blaenoriaethau mewn perthynas â chyflogadwyedd, iechyd, addysg a chymunedau cydlynus.

## Torfaen – Stori Gareth

Cafodd Gareth o Dorfaen ei gyfeirio at Llantarnam Grange gan 'Pontydd i Waith' Torfaen ym mis Awst 2017, gan ei fod wedi bod yn ddi-waith ers sawl blwyddyn a'i fod angen cymorth i wella ei sgiliau, ei hyder a'i CV i'w helpu i ddod o hyd i waith. Gyda chymorth gan Pontydd i Waith a Cyfuno, cwblhaodd Gareth gymhwyster lefel 2 mewn Cymorth Cyntaf a dechreuodd wirfoddoli ddau ddiwrnod yr wythnos yng Nghanolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange ym mis Awst 2017 yn gwneud gwaith cynnal a chadw a garddio cyffredinol.

Cafodd Gareth hwb i'w hyder yn gyflym o dan y rhaglen Gwirfoddoli strwythuredig yn Llantarnam Grange, a sefydlwyd fel rhan o raglen Cyfuno Torfaen. Cynyddodd lefel y tasgau yr oedd yn gallu eu cyflawni yn raddol a dechreuodd wneud pethau o'i ben a'i bastwn ei hun, gan helpu i newid arddangosfeydd hyd yn oed. Cwblhaodd dasgau mwy o faint megis ailbeintio'r cyntedd a'r caffi i gyd gyda help staff.

Meddai cydweithiwr o Lantarnam Grange: "Mae Gareth wedi bod yn gaffaeliad gwerthfawr i ni. Mae ei frwdfrydedd a'i ymroddiad yn wych ac mae wedi magu hyder ers iddo fod yma".

Meddai Gareth: "Rwy'n mwynhau fy amser i yma. Dwi wedi ail-fagu fy hyder nôl i sut roeddwn i'n arfer bod a dwi'n gobeithio datblygu ymhellach".

Erbyn hyn, mae Gareth wedi cael cynnig contract i weithio oriau rhan-amser rheolaidd yn Llantarnam Grange.

# Atodiad 1: Rhaglenni Grantiau Her Cyfuno yn 2017-19

| Ardal Cyfuno / **Corff Arweiniol** | Gweithgarwch a Chanlyniadau | Cyswllt Cydlynydd Cyfuno |
|---|---|---|
| **Torfaen a Chaerffili**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeisdref Sirol Caerffili | Mae awdurdodau lleol Torfaen a Chaerffili yn gweithio gyda’i gilydd ar y rhaglen Cyfuno, gan ddefnyddio diwylliant a threftadaeth i gefnogi pobl mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd eraill. Mae’r prosiect yn ceisio newid y ffordd mae pobl yn meddwl a theimlo am y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, gan eu gwneud yn berthnasol a hygyrch i bawb.<br><br>Mae’n gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys cyrff diwylliant, addysg, iechyd a chyflogaeth a sgiliau. Mae’n canolbwyntio ar fynd i’r afael â rhwystrau i gyflogaeth trwy leoliadau gwaith a gwirfoddoli, gan gefnogi cyrhaeddiad addysgol, y blynyddoedd cynnar ac iechyd a lles. | Ffôn:<br>(01633) 648809 |
| **Caerdydd**<br>Amgueddfa Stori Caerdydd | Mae Amgueddfa Stori Caerdydd, a weithredir gan Ddinas a Sir Caerdydd, yn arwain amrywiaeth eang o bartneriaid diwylliannol a threftadaeth cenedlaethol a lleol. Mae’n gweithio’n agos gydag amryw o raglenni, gan gynnwys Dechrau’n Deg, i ddatblygu rhaglen gyfoethog o weithgareddau, gan ddarparu cyfleoedd dysgu achrededig, datblygu sgiliau, prentisiaethau, gwirfoddoli a phrofiad gwaith, a gweithgareddau difyr ac ystyrlon i blant, teuluoedd, pobl ifanc a phobl hŷn. Mae’r cyfleoedd hyn yn targedu unigolion sy’n byw ym Mwa Ddeheuol Caerdydd ac mewn clystyrau Cymunedau yn Gyntaf presennol. | Ffôn:<br>(02920) 871024<br><br>#CardiffFusion<br>#CyfunoCaerdydd |

| Ardal Cyfuno / **Corff Arweiniol** | Gweithgarwch a Chanlyniadau | Cyswllt Cydlynydd Cyfuno |
|---|---|---|
| **Abertawe**<br>Dinas a Sir Abertawe | Gan adeiladu ar lwyddiant Partneriaeth Dysgu Creadigol Abertawe, mae Dinas a Sir Abertawe yn sbarduno gwaith partneriaeth arloesol ac amrywiol ar draws y ddinas. Mae clymblaid o ddarparwyr diwylliannol a threftadaeth yn creu cysylltiadau cymunedol rhagorol gyda rhaglenni a rhwydweithiau presennol ac yn creu gweithgarwch newydd. Nod y prosiect yw darparu cyfleoedd cyffrous trwy ddiwylliant i ymgysylltu a chefnogi pobl fel rhan o'u datblygiad a gwella'u lles, addysg a chyflogadwyedd. Gan weithio mewn partneriaeth, bydd y prosiect yn sicrhau mwy o gyfleoedd gwirfoddoli, sgiliau creadigol a dysgu achrededig. | Ffôn:<br>(01792) 637 685 |
| **Conwy**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cryfhau partneriaethau diwylliannol, gan weithio gydag amryw o gyrff lleol a chenedlaethol i sicrhau bod pobl leol o amryw o ardaloedd difreintiedig yn y Sir yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth ddiwylliannol. Mae ffocws cryf ar gefnogi plant a theuluoedd, ynghyd â chyflogadwyedd a chyflogaeth trwy wirfoddoli, dysgu achrededig a gwella sgiliau. Mae gweithgareddau'n cynnwys adrodd straeon, gweithdai celf, ymweliadau ag amgueddfeydd, prosiectau archifo, digwyddiadau, cyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd ffotograffiaeth a drama. | Ffôn:<br>(01492) 574628 |
| **Castell-nedd Port Talbot**<br>Tai Tarian | Mae Tai Tarian yn cefnogi cyfleoedd gwirfoddoli, cyflogadwyedd, rhaglenni llythrennedd a rhifedd ariannol a chyfleoedd ym maes y celfyddydau a diwylliant ym Mhort Talbot a thu hwnt. Un o'i raglenni pwysicaf yw'r un gydag Ysgol Bae Baglan lle mae'n defnyddio ffilm, y cyfryngau a diwylliant fel modd o hybu ymgysylltu a chyrhaeddiad. Mae Tai Tarian yn gweithio'n agos gyda phartneriaid, gan gynnwys yr actor Michael Sheen, National Theatre Wales a Ffilm Cymru. | Ffôn:<br>(01639) 505922 |

| Ardal Cyfuno / **Corff Arweiniol** | Gweithgarwch a Chanlyniadau | Cyswllt Cydlynydd Cyfuno |
|---|---|---|
| **Gwynedd**<br>Cyngor Gwynedd | Mae Cyngor Gwynedd yn darparu rhaglen o weithgareddau gyda phartneriaid megis Storiel, y Llyfrgell Genedlaethol, gwasanaeth llyfrgell Gwynedd, Pontio, Cadw, Amgueddfa Lechi Cymru ac eraill. Mae'n canolbwyntio ar helpu pobl ifanc a theuluoedd trwy'r rhaglen Llofnod Dysgu Teulu, gan ddatblygu dulliau newydd o gynyddu gwirfoddoli a chefnogi llythrennedd a'r blynyddoedd cynnar. Mae Cyngor Gwynedd yn canolbwyntio ei waith ar y clwstwr Cymunedau yn Gyntaf presennol ym Mangor, Caernarfon a Thalysarn, ynghyd â chymunedau eraill. | Ffôn:<br>(01286) 679215 |
| **Sir Gâr**<br>Cyngor Sir Gâr | Mae Cyngor Sir Gâr a'i bartneriaid yn darparu amrywiaeth eang o brosiectau a gweithgareddau diwylliannol.<br>Mae'n gweithio ochr yn ochr â rhaglenni Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru a rhaglenni cyflogadwyedd allweddol megis Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy. Rydym yn canolbwyntio ein gwaith ar ardal Llanelli ac ardaloedd sy'n wynebu anfantais economaidd. Prif nod y rhaglen yw creu cyfleoedd a fydd yn helpu unigolion i gael mynediad at gyflogaeth. Gan weithio mewn partneriaeth, mae cyrff diwylliant a threftadaeth yn blaenoriaethu cyfleoedd gwirfoddoli, lleoliadau gwaith, hyfforddiant a lles ac yn annog unigolion i gyfrannu at ddiwylliant lleol. | Ffôn:<br>(01554) 742662<br>Estyniad 5462 |

| **Ardal Cyfuno / Corff Arweiniol** | **Gweithgarwch a Chanlyniadau** | **Cyswllt Cydlynydd Cyfuno** |
|---|---|---|
| **Casnewydd**<br>Cyngor Dinas Casnewydd | Mae Dinas Casnewydd yn canolbwyntio ar leihau rhwystrau i fynediad at ddiwylliant, gan weithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid diwylliannol, gan gynnwys Amgueddfa Casnewydd, Cadw, Amgueddfa Cymru, It's my Shout, Casgliad y Werin Cymru a'r Chartist Trust. Mae'n gweithio'n agos gyda'r rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cymunedau am Waith, ynghyd â landlordiaid cymdeithasol. Mae'n canolbwyntio ar greu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn diwylliant a threftadaeth i gefnogi eu dysgu, creu lleoliadau gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli i gynyddu cyflogadwyedd, hyrwyddo cynhwysiant digidol a chefnogi iechyd a lles corfforol a meddyliol. | Ffôn:<br>01633 656656 |

# Atodiad 2: Saith Dangosydd Cyfuno

| Dangosydd | Gweithgaredd ac allbynnau |
|---|---|
| C1: Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu fel Teulu | Mae gweithgareddau diwylliannol strwythuredig yn hybu dysgu a datblygu o enedigaeth hyd at oedran ysgol.<br><br>Ar gyfer Blynyddoedd Cynnar: Mae cyrff diwylliannol yn datblygu ac yn darparu sesiynau Iaith a Chwarae neu Rif a Chwarae, neu sesiynau iaith a chyfathrebu strwythuredig eraill. Gall y rhain gael eu cynnal naill ai mewn lleoliad Dechrau'n Deg neu fel rhan o raglen gyfatebol, neu mewn lleoliad diwylliannol.<br><br>Ar gyfer Dysgu fel Teulu: Mae cyrff diwylliannol yn datblygu ac yn cynnal gweithgareddau i gefnogi'r broses o ddysgu fel teulu. Cynlluniwyd y rhain yn benodol i alluogi oedolion a phlant i ddysgu gyda'i gilydd, neu i alluogi rhieni/gofalwyr i ddysgu sut y gallant gefnogi eu plant wrth iddynt ddysgu. Maent yn canolbwyntio ar wella:<br>• sgiliau llythrennedd, iaith a rhifedd rhieni<br>• gallu rhieni i helpu eu plant, y ffordd y mae plant yn meithrin sgiliau llythrennedd, iaith a rhifedd. |
| C2: Ennill cymhwyster | Mae'r cleient yn ennill cymhwyster cydnabyddedig sydd wedi'i gynllunio'n bennaf i ddatblygu ei gyflogadwyedd. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau:<br>• FfCChC (CQFW)<br>• Unedau Agored<br>• Rhwydwaith y Coleg Agored Cenedlaethol (NOCN). |
| C3: Gwirfoddoli'n rheolaidd fel llwybr i waith | Mae'r cleient yn gwirfoddoli mewn lleoliad diwylliannol gyda'r prif fwriad i ddatblygu cyflogadwyedd, fel:<br>• o leiaf awr yr wythnos am gyfnod o 4 wythnos o leiaf<br>• patrwm arall o wirfoddoli lle mae cleient yn cwblhau o leiaf 4 awr mewn un mis<br>• mae gwirfoddoli yn cynnwys bancio amser. Dylai'r cleient fancio o leiaf un awr yr wythnos am gyfnod o 4 wythnos o leiaf. |
| C4: Cwblhau profiad gwaith | Mae'r cleient yn cwblhau profiad gwaith mewn sefydliad diwylliannol, sy'n para o leiaf 16 awr yr wythnos am bythefnos. |

| Dangosydd | Gweithgaredd ac allbynnau |
| --- | --- |
| C5:<br>Sgiliau digidol gwell | Mae'r cleient wedi cael ei gefnogi i ddatblygu ei sgiliau digidol drwy:<br>• gwblhau cwrs TG neu feddalwedd cydnabyddedig ac achrededig megis ECDL, neu sgiliau digidol achrededig eraill e.e. drwy Agored neu Rwydwaith y Coleg Agored<br>• cymryd rhan mewn prosiect diwylliannol gyda'r prif bwrpas i wella sgiliau digidol. |
| C6:<br>Agwedd well tuag at ddysgu'n ffurfiol | Mae'r cleient yn dangos gwelliant mesuradwy yn ei agwedd tuag at ddysgu'n ffurfiol, a chyrhaeddiad o bosibl, drwy ymgysylltu â diwylliant. Dylai tystiolaeth gael ei darparu gan yr ysgol neu'r asiantaeth yn hytrach na'r cleient ei hun. |
| C7:<br>Y gallu i reoli eu lles meddyliol ac iechyd corfforol yn well | Mae cleientiaid yn rhoi gwybod bod ganddynt strategaethau rheoli gwell ar gyfer eu lles meddyliol ac/neu'n cael cymorth i wella eu hiechyd corfforol, drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol neu dreftadaeth gyda'r prif bwrpas i wella iechyd a lles meddyliol.<br>Gweithgareddau/tystiolaeth enghreifftiol:<br>• Mae'r cleient wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd o leiaf ddwywaith yr wythnos am 4 wythnos, a phrif ddiben gwneud hynny yw ei helpu i deimlo'n fwy cadarnhaol am ei les meddyliol.<br>• Mae'r cleient yn gwneud mwy o weithgareddau corfforol yn sgil yr ymyrraeth. |

**Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad**

| **Thema Cyfuno** | **Mesur Perfformiad** | **Diffiniad** |
|---|---|---|
| **Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar** | **C1 Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu fel Teulu** | Mae gweithgareddau diwylliannol strwythuredig yn hybu dysgu a datblygu o enedigaeth hyd at oedran ysgol. Fe'u cynhelir gan ystod o bartneriaid, gan gynnwys darparwyr gofal plant, rhaglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, ac ysgolion. Caiff canlyniadau eu datblygu i fod o fudd i blant a rhieni/gofalwyr.<br><br>Ar gyfer Blynyddoedd Cynnar: Mae cyrff diwylliannol yn datblygu ac yn darparu sesiynau Iaith a Chwarae neu Rif a Chwarae, neu sesiynau iaith a chyfathrebu strwythuredig eraill. Gall y rhain gael eu cynnal naill ai mewn lleoliad Dechrau'n Deg neu fel rhan o raglen gyfatebol, neu mewn lleoliad diwylliannol.<br><br>Ar gyfer Dysgu fel Teulu: Mae cyrff diwylliannol yn datblygu ac yn cynnal gweithgareddau i gefnogi'r broses o ddysgu fel teulu. Cynlluniwyd y rhain yn benodol i alluogi oedolion a phlant i ddysgu gyda'i gilydd, neu i alluogi rhieni/gofalwyr i ddysgu sut y gallant gefnogi eu plant wrth iddynt ddysgu. Maent yn canolbwyntio ar wella: sgiliau llythrennedd, iaith a rhifedd rhieni gallu rhieni i helpu eu plant, y ffordd y mae plant yn meithrin sgiliau llythrennedd, iaith a rhifedd |
| **Cefnogi Cyflogadwyedd a Sgiliau** | **C2 Ennill cymhwyster** | Mae'r cleient yn ennill cymhwyster cydnabyddedig sydd wedi'i gynllunio'n bennaf i ddatblygu ei gyflogadwyedd.<br>Mae hyn yn cynnwys cymwysterau FfCChC a dyfarniadau perthynol e.e. Unedau Agored, Rhwydwaith y Coleg Agored Cenedlaethol. |
| **Cefnogi Cyflogadwyedd** | **C3 Gwirfoddoli'n rheolaidd fel llwybr i waith** | Mae'r cleient yn gwirfoddoli mewn lleoliad diwylliannol am o leiaf awr yr wythnos am gyfnod o 4 wythnos o leiaf, a bwriedir i hyn ddatblygu ei gyflogadwyedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae gwirfoddoli'n cynnwys bancio amser. Dylai'r cleient fancio o leiaf un awr yr wythnos am gyfnod o 4 wythnos o leiaf, a bwriedir i hyn ddatblygu ei gyflogadwyedd. |
| **Cefnogi Cyflogadwyedd a Sgiliau** | **C4 Cwblhau profiad gwaith** | Mae'r cleient yn cwblhau profiad gwaith mewn sefydliad diwylliannol, sy'n para o leiaf 16 awr yr wythnos am bythefnos. |
| **Cefnogi Cyflogadwyedd a Sgiliau** | **C5 Sgiliau digidol gwell** | Mae'r cleient wedi cael ei gefnogi i ddatblygu ei sgiliau digidol drwy gwblhau cwrs TG neu feddalwedd cydnabyddedig ac achrededig megis ECDL, neu sgiliau digidol achrededig eraill e.e. drwy Agored neu Rwydwaith y Coleg Agored. |
| **Cefnogi Cyflogadwyedd a Sgiliau** | **C6 Agwedd well tuag at ddysgu'n ffurfiol** | Mae'r cleient yn dangos gwelliant mesuradwy yn ei agwedd tuag at ddysgu'n ffurfiol, a chyrhaeddiad o bosibl, drwy ymgysylltu â diwylliant.<br><br>Dylai tystiolaeth gael ei darparu gan yr ysgol neu'r asiantaeth yn hytrach na'r cleient ei hun. |
| **Iechyd a Lles** | **C7 Y gallu i reoli eu lles meddyliol ac iechyd corfforol yn well** | Mae cleientiaid yn rhoi gwybod bod ganddynt strategaethau rheoli gwell ar gyfer eu lles meddyliol ac/neu'n cael cymorth i wella eu hiechyd corfforol.<br><br>Gweithgareddau/tystiolaeth enghreifftiol:<br>Mae'r cleient wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd o leiaf ddwywaith yr wythnos am 4 wythnos, a phrif ddiben gwneud hynny yw eu helpu i deimlo'n fwy cadarnhaol am eu lles meddyliol.<br>Mae'r cleient yn gwneud mwy o weithgareddau corfforol yn sgil yr ymyrraeth. |

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

13 Mai 2019

Annwyl Dai,

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn bwriadu craffu ar y Rheoliadau sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg ar gyfer darparwyr gofal iechyd sylfaenol gan gynnwys meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr, a osodwyd ar 9 Mai 2019 ac y disgwylir iddynt ddod i rym ar 30 Mai 2019.

Yn anffodus, ychydig iawn o amser sydd gennym i wneud hyn. Drwy bennu'r dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym ar 30 Mai, sy'n cynnwys cyfnod Gwyliau Banc, Diwrnod Braint a chyfnod toriad, mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu 10 diwrnod gwaith yn unig inni ymgynghori â'n rhanddeiliaid, trafod y mater hwn ac adrodd arno i'r Cynulliad. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fynegi fy rhwystredigaeth gyda'r sefyllfa.

Gydag ymddiheuriadau am y dyddiad cau byr, a wnewch chi ddwyn y Rheoliadau i sylw eich Aelodau a rhoi gwybod i mi a oes unrhyw faterion y mae eich Pwyllgor neu randdeiliaid yn teimlo y dylid rhoi sylw iddynt yn ein hadroddiad? A fyddai modd i chi ymateb erbyn 17 Mai 2019?

Rwy’n ddiolchgar i chi am eich mewnbwn. Mae’n bwysig ein bod yn clywed barn eich rhanddeiliaid ar y mater hwn, fel y gallwn wneud asesiad llawn o effaith y ddeddfwriaeth.

Yn gywir,



Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

Bethan Sayed AC
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

14 Mai 2019

Annwyl Bethan

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mai 2019 ynghylch bwriad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i graffu ar y Rheoliadau sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg ar gyfer darparwyr gofal iechyd sylfaenol.

Yn anffodus, oherwydd ymrwymiadau presennol yn y rhaglen waith, nid oes amser ar gael i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ystyried y Rheoliadau hyn yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, rwyf wedi dosbarthu eich llythyr, y Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol i Aelodau'r Pwyllgor ac wedi awgrymu eu bod yn cysylltu â chi'n uniongyrchol os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Cofion cynnes

Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Vaughan Gething AC,

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

10 Mai 2019

Annwyl Vaughan,

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**

Rwy'n nodi y cafodd y Rheoliadau sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg ar gyfer darparwyr gofal iechyd sylfaenol, gan gynnwys meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr, eu gosod ddoe. Rwyf hefyd yn nodi bod disgwyl iddynt ddod i rym ar 30 Mai 2019.

Rwy'n eithriadol o bryderus nad yw'r Pwyllgor wedi cael digon o amser i'w trafod, yn enwedig ar ôl i mi bwysleisio pa mor bwysig oedd hi i ni gael mwy na 21 diwrnod i'w trafod pan wnaethom ni edrych ar y set flaenorol o Reoliadau ym mis Mawrth y llynedd.

Fe wnaeth adroddiad ein Pwyllgor bwysleisio bod angen mwy o amser i'w trafod, ac fe wnes i godi hyn yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mawrth. Fe wnes i sôn bryd hynny am ein rhwystredigaeth gyda'r amserlen frysiog a'r ffaith bod ein rhanddeiliaid a'n Haelodau yn teimlo nad oedd digon o amser i drafod goblygiadau'r ddeddfwriaeth yn iawn.

Mewn ymateb i'n pryderon, dywedodd Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol:

> 'Rydw i'n ymwybodol iawn nad ydych chi wedi cael lot o amser i edrych ar hyn, ond rydym ni wedi cydymffurfio â'r 21 diwrnod sydd fel arfer yn cael eu cydnabod. Ond rydw i yn derbyn efallai y gallwn ni edrych ar ehangu hynny, os mae hynny wedi creu problem y tro

yma. Ond dyna'r ffordd y mae wastad wedi cael ei wneud. O ran egwyddor, rydw i'n meddwl y gallwn ni edrych ar ymestyn yr amser yn y dyfodol.'

O ystyried y sylwadau hyn, ysgrifennodd Clerc y Pwyllgor at swyddogion Llywodraeth Cymru yn Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a Llywodraethiant dair gwaith rhwng mis Rhagfyr a mis Ionawr i gadarnhau y bydd gan y Pwyllgor fwy na'r isafswm o 21 diwrnod i ymgynghori ar y rheoliadau a chraffu arnynt. Ni chafwyd ymateb.

Rwy'n siŵr y gallwch ddeall felly pa mor siomedig ydw i o weld ein bod ni unwaith eto wedi cael y cyfnod lleiaf posibl i graffu ar y darn pwysig hwn o is-ddeddfwriaeth.

Yn wir, drwy bennu 30 Mai fel y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, sy'n cynnwys cyfnod gŵyl y banc, diwrnod braint a chyfnod y toriad, rydych chi i bob pwrpas wedi rhoi 10 diwrnod gwaith yn unig i ni i ymgynghori â'n rhanddeiliaid, trafod y mater hwn ac adrodd arno i'r Cynulliad.

Nid wyf yn barod i amharu ar waith y Pwyllgor drwy ruthro drwy'r gweithgaredd hwn. A fyddech cystal â gohirio'r dyddiad dod i rym tan y drydedd wythnos ym mis Mehefin? Mae'n hanfodol bod gennym amser i graffu'n iawn ar y ddeddfwriaeth oherwydd ei phwysigrwydd i'r grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gofal sylfaenol.

Yn ystod y ddadl am y set flaenorol o Reoliadau sy'n ymwneud â darparwyr gofal sylfaenol, fe wnaeth y Gweinidog gydnabod fod hwn yn fater dadleuol a bod angen ei drafod yn drylwyr â phawb y bydd yn effeithio arnynt.

Oherwydd bod hwn yn fater brys, a fyddech cystal ag ymateb drwy e-bost neu drwy ffonio cyn gynted â phosibl neu ofyn i un o'ch swyddogion siarad â Chlerc y Pwyllgor, Martha Howells. Ei manylion cyswllt yw [redacted] neu [redacted]

Yn gywir,

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**